

Gwirfoddolwr Cefnogi Ymwelwyr

Mae hon yn rôl gyffrous sydd wedi ei chynllunio i helpu cartrefi gofal wrth groesawi ymwelwyr gan ddilyn rheolau Covid-19.

Mae ymweliadau â chartrefi gofal wedi cael eu cyfyngu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Rydyn ni'n gwybod bod ffrindiau a/neu deuluoedd yn awyddus i ddychwelyd at ymweld eu hanwyliaid.

Bydd y cyfle hwn i wirfoddoli yn chwarae rhan allweddol wrth gefnogi cartrefi gofal wrth iddyn nhw groesawu ymwelwyr a helpu i hwyluso llesiant preswylwyr.

Gallwch fod yn:

- Cefnogi'r Cartref Gofal gyda threfniadau i hwyluso ymweliadau
- Croesawu ymwelwyr ar y diwrnod, sicrhau bod pawb yn cadw pellter cymdeithasol, masgiau, hylif diheintio fel y bo'n briodol
- Gweithgareddau eraill sydd yn helpu i gefnogi ymweliadau didrafferth a diogel
- Cynorthwyo staff a phreswylwyr gyda lluniaeth a gweithgareddau a gynlluniwyd
- Cefnogi ymarfer corff ysgafn a helpu i hwyluso hobiau a diddordebau
- Cynorthwyo preswylwyr gyda chyfathrebu digidol

Byddai'r rôl yn addas i rywun sydd â'r nodweddion a'r sgiliau canlynol:

- Sgiliau cyfathrebu da, cadarnhaol
- Y gallu i weithio heb eich arolygu, gan weithio ar eich menter eich hun yn ôl y gofyn
- Dealltwriaeth cyfrinachedd
- Dealltwriaeth o anghenion pobl hŷn ac empathi gyda'r anghenion hynny
- Dibynadwyedd, amynedd a sensitifrwydd
- Personoliaeth glên a hyderus

Beth yw manteision y rôl hon i chi?

- Cyfarfod a gwneud ffrindiau gyda phobl newydd

- Hyfforddiant a chyfnod cynefino priodol
- Cefnogaeth gan staff Age Cymru a staff y cartref gofal
- Profiad gwych ar gyfer eich CV, a geirada os oes angen
- Gwerthfawrogiad o gyfyngiadau symudedd a sut i allu cefnogi pobl hŷn yn y ffordd orau
- Dealltwriaeth o ddementia a sut mae'n effeithio ar y sawl sydd yn derbyn diagnosis o ddementia a'u teuluoedd
- Cyfle i wneud gwahaniaeth go iawn wrth uno preswylwyr gyda'u teuluoedd neu ffrindiau.

Cartrefi Gofal:

- Glan Rhos – Ynys Môn
- Ysguborwen – Aberdâr
- Capel Grange – Casnewydd
- St. Nicholas – Trefaldwyn, Powys
- Plas Bryn Rhosyn – Castell-nedd
- Llys Cyncoed– Caerdydd
- Llys y Seren – Port Talbot
- Tynant – Castell-nedd

Ymrwymiad amser: Bydd pob sesiwn yn para oddeutu tair awr. Rydyn ni'n awyddus i ddenu gwirfoddolwyr sydd yn medru ymroddi un neu ddwy sesiwn yr wythnos gan ddibynnu ar argaeledd. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau ar gyfer gwirfoddoli ar benwythnosau i ateb y galw yn ystod oriau ymweliad y cartref gofal.

Mae'r rôl yn amodol ar brofion llif unffordd rheolaidd.

I wneud cais, e-bostiwch: [**carehomevolunteer@agecymru.org.uk**](mailto:carehomevolunteer@agecymru.org.uk)

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant a gofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad swyddfa gofrestrdig Llawr Gwaelod, Tŷ Mariners, Cwrt Trident, Ffordd East Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2021